

FEL RHIANT NEU WARCHODWR OES GENNYCH HAWL I BRYDAU YSGOL AM DDIM AR GYFER EICH PLANT SY'N MYNYCHU YSGOL O FEWN BWRDEISTREF SIROL CONWY?

ALLWCH CHI ARBED £430 Y FLWYDDYN AR GYFER BOB PLENTYN PE BYDDECH YN YMGEISIO A CHYMHWYSO?

Er mwyn cymhwyso ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer eich plentyn/plant, rhaid i chi fod yn derbyn un o'r taliadau cymorth canlynol -

- Credyd Cynhwysol*

Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol gyda dyfarniad prydau ysgol am ddim presennol ar ddiwedd mis Mawrth, 2019, gallwch barhau i fod yn gymwys nes 2023, hyd yn oed os yw eich amgylchiadau'n newid.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei meini prawf cymhwyso Credyd Cynhwysol ym mis Ebrill, 2019, ac yn cyflwyno trothwy incwm blynyddol net a enillir o £7400 neu lai ar gyfer ceisiadau newydd. Eto, unwaith eich bod yn gymwys i brydau ysgol am ddim o fis Ebrill, 2019 gallwch barhau â'r hawl honno nes 2023, hyd yn oed os yw eich amgylchiadau'n newid.

- Cymhorthdal Incwm*
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm*
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad ydych yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw incwm blynyddol eich aelwyd, yn unol ag asesiad CThEM, yn uwch na £16,190
- Cefnogaeth o dan Rhan VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.
- Eifen Warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth Cysylltiedig ag Incwm*
- Credyd Treth Gwaith parhaus – y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl iddynt beidio â bod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol Credyd Treth Gwaith



Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer cymorth a chefnogaeth

Conwy County, the right environment for help and support

(*Mae disgyblion sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Cynhwysol drwy eu hawl eu hunain hefyd yn gymwys)

Ar gyfer bob disgybl sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi'r Ysgol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r plant hynny. Felly os oes gennych hawl, ymgeisiwch nawr.

Os dymunech wneud cais, argraffwch a chwblhewch y Ffurflen Gais Prydau Ysgol am Ddim ar

<http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Education-Benefits/Free-School-Meals-in-Conwy-County-Borough.aspx> a'i anfon at -

Gwasanaethau Asesu Refeniw a Budd-Daliadau
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

Os ydych am dderbyn ffurflen bapur, neu angen unrhyw gymorth wrth gwblhau'r ffurflen, neu ag unrhyw gwestiynau eraill, ewch i <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Revenues-and-Benefits-Customer-Services.aspx>.



Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer cymorth a chefnogaeth

Conwy County, the right environment for help and support